



Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

ADRODDIAD BLYNYDDOL

1 EBRILL 2008 – 31 MAWRTH 2009

ELUSEN GOFRESTREDIG 1120223
CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT
6204415



Supported by
The National Lottery[®]
through the Heritage Lottery Fund

Cefnogwyd gan

Y Loteri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri



ARIENNIR EIN GWEITHGAREDDAU HEFYD GAN, CYNGOR TREF
DINBYCH, CYNGOR TREF Y RHYL, A CHYNGOR TREF RHUTHUN

Cynnwys

Gair gan y Cadeirydd	3
Beth yw Menter Iaith?	3
Menter Iaith Sir Ddinbych	3
Strwythur a Staff y Fenter 2007-08	4
Aelodau Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Sir Ddinbych	4
Disgrifiad o'r Ardal a wasanaethir	5
Nod ac Amcanion Menter Iaith Sir Ddinbych	5
Blas ar weithgareddau/prosiectau	6
Blas ar weithgareddau Corwen	6 a 7
Blas ar weithgareddau Rhuthun	7
Gweithgareddau Menter Iaith Sir Ddinbych	8 - 9



Menter Iaith Sir Ddinbych
Adeilad Deiamwnt
6 Heigad
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3LE

Ffôn: 01745 812822

Ffacs: 01745 818601

E-bost: ymholiadau@menteriaithdinbych.co.uk

Gwefan: www.mentrauiath-gogledd.com

Gair gan y Cadeirydd

Unwaith eto gallwn edrych yn ôl ar flwyddyn o waith effeithiol a hapus ym mywyd Menter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r staff wedi cyflawni gwaith egniol a brwdfrydig gydol y flwyddyn, ac mae'n rhaid i mi dalu teyrnged iddynt oll. Diolch hefyd i'r Cyfarwyddwyr a Chyfeillion y Fenter am eu cymorth eleni.

Mae'r Fenter erbyn hyn wedi hen ymgartrefu yn ein swyddfeydd yn Adeilad Deiamwnt, Heigad, Dinbych, lle ceir cydweithio hapus a brwdfrydig gyda staff yr Urdd. Ceir manteision amlwg o rannu 'cartref' gydag un o brif bartneriaid cynllunio ieithyddol y Fenter, ac mae ein gwaith yn elwa o hyn. Rydym hefyd wedi cydweithio yn effeithiol gyda nifer o bartneriaid eraill yn ystod y flwyddyn, megis Mudiad Ysgolion Meithrin, TWF, Athrawon Bro, Ffermwyr Ifanc, Cynlluniau Gweithredu Iaith Rhuthun a Corwen, Popeth Cymraeg, Papurau Bro, Merched y Wawr, maes Cymraeg i Oedolion, ysgolion, busnesau a chyrff sirol gan gynnwys y Cyngor Sir. Diolch i chwi oll am eich cyfeillgarwch a'ch bodlonrwydd i rannu amser ac arbenigedd gyda ni. Cydnabyddwn ein noddwyr ar gyfer y flwyddyn sef Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Sir Ddinbych, y Loteri, Cronfa Cymunedau'n Gyntaf a Chynghorau Tref Dinbych, Rhuthun a'r Rhyl. Heb fewnbnw noddwyr ni fyddwn yn medru gweithredu fel Menter, ac mae eich nawdd yn sicr wedi esgor ar gyrraedd targedau pwysig ym maes hybu a hyrwyddo dwyieithrwydd ein Sir.

Rhaid nodi ein bod, fel pawb arall, yn wynebu sefyllfa ariannol sy'n dipyn o her, ac mae ein targedau wedi gorfod adlewyrchu hynny. Mae'r sefyllfa yn debygol o barhau, ac felly y mae pob cynnig o gymorth, boed o du gwirfoddolwyr neu noddwyr ariannol yn destun croeso a llawenydd! Cofiwch os ydych yn cael syniad da ar gyfer cydweithio neu nawdd, rhowch alwad i ni am sgwrs - rydym bob amser yn barod i wrando. Mae'r cyfle i gyd-ariannu prosiectau a rhannu adnoddau yn realiti i bob Menter Iaith, a dim ond drwy gydweithio creadigol y gallwn barhau i gynnig y gwasanaethau gorau i'r Sir.

Cafwyd nifer o uchafbwyntiau eleni, boed ym maes plant a phobl ifanc megis yn yr Ŵyl Gerdd Dant neu wrth ddathlu pen-blwydd y

Fenter yn ddeng mlwydd oed. Cafwyd noson blasu gwin hynod hwylus fel rhan o'r dathliadau, gyda nifer yn gofyn am noson debyg eto.. cawn weld!!

Cewch ddarllen mwy am ddatblygiadau staff yn yr adroddiad hwn, ond rhaid nodi ein balchder yn y ffaith ein bod wedi llwyddo sicrhau cyllid gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y Cyngor Sir i gyflogi Swyddog Plant a Phobl Ifanc. Ymunodd y swyddog gyda'r Fenter ym mis Mehefin 2009 ac mae'n gweithio mewn swyddfa Cyngor Sir yn y Rhyl. Bydd gwaith y swyddog yn allweddol i'n cyraeddiadau ar gyfer y glannau ac ardal Bodelwyddan a Galltmealyd, ac yn gydblethiad naturiol iawn gyda'n targedau eraill ar gyfer cynlluniau i'r dyfodol.

Wrth ddarllen ymlaen cewch flas o'r hyn aeth ymlaen yn ystod y flwyddyn, a chredaf y byddwch, fel finnau, yn llongyfarch y Fenter ar flwyddyn effeithiol arall o hybu a hyrwyddo dwyieithrwydd yn Sir Ddinbych.

Andrea Miller
Cadeirydd

Beth yw Menter Iaith?

Mae gwahaniaethau mawr rhwng pob Menter Iaith ond er y gwahaniaethau yn natur yr ardaloedd a wasanaethir gan fentrau iaith mae rhai gweithgareddau craidd yn gyffredin iddynt oll sef : hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol naturiol, hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg fel iaith weledol (ar arwyddion / posteri a.y.b.), hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng busnes, hyrwyddo trosglwyddiad iaith o fewn teuluoedd ac yn gyffredinol, marchnata'r budd o fod yn ddwyieithog.


Ariennir holl Fentrau Iaith Cymru yn rhannol gan Fwrdd Yr Iaith Gymraeg ac yn rhannol gan ffynonellau cyllidol eraill.

Mae pob Menter Iaith yn gorff gwirfoddol a chanddi aelodau a phwyllgorau llywio. Mae rhai mentrau wedi cofrestru fel elusennau a rhai fel busnesau cyfyngedig trwy warant yn ogystal.

Menter Iaith Sir Ddinbych

Sefydlwyd Menter Iaith Sir Ddinbych ym mis Hydref 2003 pan ddaeth yn Fenter hollol ar wahân ac annibynnol i Fenter Iaith Dinbych-Conwy. Mae'r Fenter yn elusen gofrestredig ers 11eg Tachwedd 2004 ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant ers 5ed Ebrill 2007. Mae gan y Fenter fwrdd o gyfarwyddwyr profiadol, gweithgar a chefnogol iawn sydd wedi eu dethol o'r aelodaeth ehangach. Mae croeso i unrhyw un sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y fenter ddod yn aelod.

Strwythur Menter Iaith Sir Ddinbych



Cyfarwyddwyr ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Sir Ddinbych Hydref 2008

Cyfarwyddwyr:

Cadeirydd

Andrea Miller Unigolyn

Is – Gadeirydd

Gwenan Roberts Unigolyn

Trysorydd

Ceri Evans Unigolyn

Ysgrifenyddes

Caryl Vaughan Unigolyn

Morfudd Jones Cynllun Iaith Ardal Rhuthun

Marian Rees Unigolyn

Nerys Davies Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych

Arwyn Jones Unigolyn

Cyfeillion:

Cyng. Gwilym Evans Cyngor Sir Ddinbych

Carys Gwyn Mudiad Ysgolion Meithrin

Lowri Owain Cadwyn Clwyd

Mae gan Fenter Iaith Sir Ddinbych swyddogion cyflogedig a apwyntiwyd i gyflawni nodau ac amcanion y fenter. Fe'u lleolir yn Adeilad Deiamwnt, 6 Heigad, Dinbych. Fe ariannir y swyddi gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Sir Ddinbych, Undeb Ewropeaidd Amcan Un a'r Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri..

Staff y Fenter 2008-09

Prif Swyddog – Dylan Jones

Ymunodd Dylan a thîm y Fenter ym mis Medi 2006 fel Swyddog Datblygu llawn amser. Caiff swydd Dylan ei ariannu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor Sir Ddinbych. Cafodd Dylan ei benodi yn Brif Swyddog y Fenter ym mis Rhagfyr 2007 dros gyfnod mamolaeth Cerian, a chafodd ei benodi yn Brif Swyddog parhaol y Fenter yn Rhagfyr 2008.

ffiniau Sir Ddinbych a'r ardaloedd cyfagos yn unol â chyfarwyddiadau'r Pwyllgor Rheoli trwy gyflawni'r canlynol:

- i) Meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith yn y sector breifat, ac anelu at wneud y Gymraeg yn ased economaidd
 - ii) Cynorthwyo'r sector wirfoddol i gynnig gwasanaeth dwyieithog
 - iii) Annog y di-gymraeg i fabwysiadu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith e.e. cymhathu mewnfudwyr a chynorthwyo'r dysgwyr i ddod yn rhugl ac i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg.
 - iv) Annog a chynorthwyo i drefnu a chynnal digwyddiadau newydd
- a. i bontio rhwng ysgol a chymdeithas
 - b. i ategu at waith y ddarpariaeth Gymraeg i oedolion
 - c. i gyfoethogi a bywiocáu bywyd Gymraeg yn gyffredinol
 - v) Cefnogi gweithgareddau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes trwy gyfrwng y Gymraeg
 - vi) Trefnu gweithgareddau ar gyfer ieuenctid i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg.
 - vii) Hyrwyddo Trosglwyddiad Iaith o fewn teuluoedd
 - viii) Cyflwyno datganiadau yn rheolaidd i'r cyfryngau ynglŷn â'n cynlluniau/prosiectau. Cydweithio â Mentrau eraill i farchnata a rhannu arfer da.

Blas ar weithgareddau/prosiectau Ebrill 08 - Mawrth 09

Staff - Bu'r holl staff yn weithgar iawn dros y flwyddyn gan gyflawni'r holl dargedau a osodwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bu Cerian i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth hyd at Ragfyr 2008. Yn ystod ei habsenoldeb bu Iorwen Jones a Gwerfyl Eidda yn llenwi'r bwlch.

Cynlluniau Ardal Bwrdd yr Iaith - Parhau mae'r cydweithio da rhwng swyddogion Cynllun ardal Rhuthun a Chorwen. Rydym yn cyfarfod yn gyson i rannu syniadau ac arfer da yn ogystal â chydweithio yn yr ardaloedd penodedig pan ddaw'r angen.

Blas ar weithgareddau Cynllun Iaith Ardal Corwen

Adolygiad Cynnydd

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn gyfnod o bwysu a mesur gwaith y cynllun yng Nghorwen. Gyda chymorth adborth, ac ystadegau gan bartneriaid a sefydliadau mapiwyd gweithgareddau'r ardal. Cofnodwyd eu naws ieithyddol a'u cymharu gyda'r sefyllfa pum mlynedd yn ôl. Paratowyd adroddiad o'r adolygiad cynnydd, â'i gyflwyno i'r cyhoedd yn ystod noson agored yng ngwesty'r Owain Glyndŵr dan arweiniad y Cadeirydd Mr Edwin Jones. Cafwyd cynulleidfâ dda, o aelodau'r gymuned leol, a phartneriaid. Yn ystod y noson bu i Mr Meirion Prys Jones drafod dyfodol y cynllun gyda'r rhai oedd yn bresennol. Adborth a gasglwyd o'r noson oedd nad oedd neb am weld y cynllun yn dod i ben, ond rhaid cydnabod na fyddai'n bosib iddo barhau fel ag yr oedd.

Dysgwyr

Cynhaliwyd Eisteddfod Powys yng Nghorwen a chydweithiwyd gydag adran Gymraeg Llysfasi, ac Athrawon Bro i lunio rhestr y cystadlaethau. Er mai ychydig o frwdfrydedd oedd i'r cystadlu ar y diwrnod; braf oedd gweld aelod o Glwb Llan Llawen yn derbyn gwobr tlws y Dysgwyr. Yn dilyn y cydweithio gyda Llysfasi bellach mae copïau o gyfres maes llafur Llan Llawen ar gael i fenthg o'r llyfrgell ar ffurf cd neu werslyfr. Cynhelir rhai gweithgareddau Llan Llawen yng ngwesty'r Owain Glyndŵr. Cysylltwyd gyda sawl sefydliad lleol er mwyn gwahodd Cymry Cymreig i ymuno, cafwyd cefnogaeth gan grŵp M Y W yno. Cynhaliwyd taith gerdded yn olrhain hanes Owain Glyndŵr, dan arweiniad Mr Alan Baines a Swyddog Cefn Gwlad Cynor Sir Ddinbych. Siomedig oedd y niferoedd a ddaeth, ond cafwyd taith ddymunol serch hynny.

Prosiect Peilot Cyllido Cyfranogol (Participatory Budgeting)

Cydweithiwyd gyda sawl grŵp lleol a'i hannog i fentro ar wneud cyflwyniad am gais o'r nawdd ariannol hwn. Roedd yr ymateb yn dda a bu'r canlynol yn llwyddiannus i rannu £3000. MYM Corwen, Grŵp Pypedau, Côr Plant, Gŵyl Ddrama, Clwb y Berwyn, Undeb Credyd Caledfryn.

Plant

Cymerodd oddeutu 20 o blant rhan yng nghyflwyniad y Sioe Panto Lawen yn ystod y Nadolig. Sioe a gyflwynwyd ar y cyd rhwng y côr plant a Theatr Ieuencid yr Urdd. Daeth Bethan Smallwood ac Ifor Rhys i arwain y plant mewn ymarferion wythnosol dan oruchwyliath yr Urdd a rhieni. Anogwyd un o'r plant i ysgrifennu ei phrofiadau a chyhoeddwyd yr erthygl yn y papur bro.

Clwb Gwawr/ Jest Genod

Bu i'r ddau sefydliad gynnal un gweithgaredd ar y cyd, sef noson o "cwis gwirion". Derbyniwyd nawdd gan yr academi i hwyluso talu am feirniad.

Roedd yn noson hwyliog ac mae awydd o'r ddau grŵp i roi gweithgaredd tebyg ar y rhaglen eto i'r dyfodol.

Ieuencid

Cydweithiwyd gyda chlwb Cymry Corwen a chyflwynwyd sesiwn ar sut i hwyluso trefnu gweithgaredd yn ddwyieithog, a sesiwn rapio gydag Ed Holden

Mae is grŵp o wirfoddolwyr a phlant bellach wedi sefydlu grŵp pypedau gyda'r bwriad o gynnal Sioeau Pyped Owain Glyndŵr

Ymgyrch Marchnata Addysg

Cafwyd sesiwn gyda Jac y Jwc yn y feithrinfa leol. Daeth gynulleidfa o rieni a phlant yno a dosbarthwyd adnoddau i hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Blas ar weithgareddau Cynllun Iaith Ardal Rhuthun

Trefnwyd Diwrnod Chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion Cymraeg estynedig Blwyddyn 7 Ysgol Brynhyfryd. Daeth Mair Damos Ifans i gynnal Sesiynau Chwaraeon Buarth mewn 5 o Ysgolion Cynradd yr Ardal. Bu'r Swyddog yn cynnal sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith gyda staff atodol y 5 Ysgol Gynradd uchod er mwyn cael eu cefnogaeth i'r Chwaraeon Buarth. Bu'r Swyddog Datblygu yn trefnu sesiwn Rap i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Rhuthun gyda Ed Holden. Sefydlwyd Panel Gwirfoddolwyr ymysg aelodau mudiadau Cymraeg tref Rhuthun i fynychu gweithgareddau Clwb Llanllawen er mwyn cefnogi a helpu'r dysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch anffurfiol. Yn dilyn trafodaeth gydag Arweinydd Clwb Sgowtiaid Rhuthun bydd y Swyddog Datblygu yn cynnal Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith, sesiwn Hwyl yn y Gymraeg a sesiwn Rap gyda Ed Holden er mwyn cyflwyno'r Gymraeg mewn dull cyfoes a modern i blant o 6 oed i 12 oed. Yn ystod Ymgyrch Cymraeg Kids Soak it Up bu'r Swyddog yn cynnal a chynorthwyo gweithgareddau ar gyfer rhieni a theuluoedd yr ardal. Trefnodd y Swyddog Datblygu brynhawn i'r teulu gyda Jac y Jwc a fu'n llwyddiant mawr gyda dros 40 o rieni a 60 o blant ifanc yn bresennol. Cynhaliwyd Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith i Fyfyrrwyr oedd ar fin gadael Coleg Llysfasi ac aelodau o Gangen MYW Rhuthun, manteisiwyd ar y cyfle i hyrwyddo'r ymgyrch 'Mae gen ti Ddewis' i'r aelodau. Daeth tua 120 o ddysgwyr at ei gilydd i Rhuthun i gynnal Eisteddfod y Dysgwyr a fu'n llwyddiant arbennig. Bu'r Swyddog Datblygu yn Arwain y noson.

Gweithgareddau Menter Iaith Sir Ddinbych

Busnes - Eto eleni rydym wedi cael blwyddyn gyffroes a phrysur dros ben. Mae'r prosiect yn dal i fynd o nerth i nerth drwy roi cymorth a chynghor i nifer fawr o fusnesau mawr a bach, newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ar hyd a lled Sir Ddinbych.

O ganlyniad i'r seminarau a'r cyswllt agos gydag Asiantaeth Antur Sir Ddinbych cafwyd nifer fawr o fusnesau gyda diddordeb mewn cynhyrchu arwyddion a deunyddiau marchnata i ddatblygu i fod yn fusnes dwyieithog. Cafwyd hefyd nifer fawr o gysylltiadau busnes trwy gydweithio ac asiantaethau megis Llygad Busnes, Menter a Busnes, Momentwm a'r Llinell Gyswllt, mae'r rhestr yn hirfaith gydag ambell i fusnes wedi cyfieithu ei bwydleni.

Mae perthynas agos iawn yn dal i gael ei chryfhau rhwng y Fenter a'r Grwpiau Busnes lleol megis Rhyl, Corwen a Dinbych.

Unwaith eto bues yn brysur yn dosbarthu deunyddiau Iaith Gwaith y Bwrdd Ynghyd â thafenni 'Symud I Gymru' a deunyddiau y cynhyrchais fy hun megis napcyn, canhwyllau a thafenni tref Rhuthun.

Caiff y ffurflen 'Claim Fform' ei chwblhau bob tri mis yn ddi-ffael trwy gydweithio a Swyddog Cyllid y Fenter.

Yn sicr mae'r flwyddyn hon wedi bod yn hynod o brysur a chyffroes i mi ond yn anffodus bydd y cynllun yn dod i ben mis Rhagfyr 2008. Buom yn ffodus iawn i gael estyniad o Fehefin hyd Rhagfyr ond nid yw estyniad ychwanegol yn bosibl. Rydym wedi sicrhau y bydd Asiantaeth Antur Sir Ddinbych yn parhau i gyflwyno'r cyflwyniad Cymraeg yn ei seminarau.

Treftadaeth

Ariennir y prosiect hwn gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Prif bwrpas y prosiect yw addysgu trigolion Sir Ddinbych am hanes a diwylliant yr iaith Gymraeg. Mae'r Swyddog Addysgol Treftadaeth Iaith wedi bod yn gweithio'n agos gydag ysgolion a chymunedau ledled y sir.

I ddathlu Santes Dwynwen yn ystod mis Ionawr mi gafodd aelodau o Glwb Ffermwyr Ifanc Rhuthun gyfle i greu cardiau Santes Dwynwen yng ngofal Sioned Jones.

Eto eleni cafwyd y cyfle i weithio mewn partneriaeth gyda Mudiad Ysgolion Meithrin i gynnig Cymraeg i'r Teulu a chodi ymwybyddiaeth Treftadaeth. Llwyddodd Mudiad Ysgolion Meithrin mewn partneriaeth â Menter Iaith Sir Ddinbych i sicrhau cyllid gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir Ddinbych i gynnal tri chwrs Cymraeg i'r Teulu o fewn Cylchoedd Ti a Fi Dinbych Uchaf a Cyffylliog. Cynllun oedd 'Cymraeg i'r Teulu' oedd yn cynnig rhwng 6 a 12 sesiwn o hyfforddiant i rieni ar batrymau iaith syml wedi eu seilio ar sefyllfaoedd bob dydd yn y cartref. Mae hefyd yn cynnig cyfle i rieni ddysgu caneuon a hwiangerddi Cymraeg ynghyd â sgiliau darllen storïau syml i'w plant yn y Gymraeg. Eleni am yr ail flwyddyn mae'r Fenter Iaith wedi sicrhau dilyniant i'r cwrs trwy gael Nerys Hughes i mewn ar ddiwedd y cwrs i greu arddangosfa o waith crefft ar hwiangerddi traddodiadol. Mae un o'r arddangosfeydd i'w weld yng Nghanolfan Margaret Morris yn Ninbych.

Bu Gerallt a Sian yn brysur iawn yn cynnal gweithdai cerddoriaeth gydag ysgolion y Rhyl ym mis Gorffennaf a Medi o dan arweiniad y band Brigyn. Cafodd rhai o ddysgwyr Popeth Cymraeg flas ar eu treftadaeth ym mis Ionawr 2009 drwy fynychu gweithdai gwneud murlun yn sôn am yr afonydd a thraethau lleol yn ardal y Glannau.

Ar ddiwedd blwyddyn brysur iawn, crëwyd 2 furlun arall gyda disgyblion Ysgol y Gwernant Llangollen ac Ysgol Cefn Meiriadog. Hanes y Mabinogi oedd testun y murluniau hyn. Daw'r prosiect hwn i ben Medi 2009.

Ieuentid a phobl Ifanc –Cynhaliwyd Camp Rygbi Cymraeg yn Y Rhyl am yr ail flwyddyn yn ystod mis Awst, ar y cyd â'r Urdd, Sale Sharks, Sion Edwards, a Chlwb Rygbi Y Rhyl. Mynychwyd y gamp hollol Gymraeg gan 60 o blant a chawsant hyfforddiant rygbi, gwybodaeth bwyta'n iach a wal ddringo. Fe gynhaliwyd ein Camp Pêl Droed cyntaf ym Mhrestatyn gyda 25 yn mynychu. Mawr yw ein diolch am gyd weithrediad Cwmni Actif 24/7.

Cydweithiom eto eleni gyda'r Athrawon Bro i drefnu Jambori i'r ysgolion cynradd yn y sir, a chynhaliwyd y Jambori gan Martyn Geraint.

Eleni hefyd, dechreuom glwb ar ôl ysgol yn Ysgol Heulfre, Dinbych. O fis Medi hyd y Nadolig cynhaliwyd gweithdai drama cyfrwng Cymraeg bob pythefnos ac yna gweithdai cerddoriaeth o'r Nadolig hyd y Pasg. Buom hefyd yn cefnogi ei sesiynau dawnsio clocsiio.

Cynhaliwyd 2 ddiwrnod Codi Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gydag Ysgolion Uwchradd y Rhyl a Prestatyn. Dyluniwyd dau gerdyn post gan y disgyblion i ddangos ei fod yn cŵl i siarad Cymraeg! Cafwyd ymateb arbennig gan y disgyblion.

Dysgwyr - Cynhaliwyd Eisteddfod y Dysgwyr ar y cyd a mentrau Fflint a Maelor, ac am y tro cyntaf erioed daeth yr Eisteddfod i Sir Ddinbych. Fe'i cynhaliwyd yn Theatr John Ambrose y Rhyl a daeth dros 120 o ddysgwyr ynghyd i gael hwyl wrth gystadlu. Buom hefyd yn darlledu'n fyw ar Wedi 7 S4C.

Cymdeithasol -Yn ystod y flwyddyn bu nifer o weithgaredd cymdeithasol megis noson Stomp Farddol yng Ngŵyl Ganol Haf Dinbych a Noson Blasu gwin i ddathlu 10 mlynedd o Fenter Iaith yn Sir Ddinbych ym mis Hydref. Fel rhan o fwrlwm y Nadolig bu'r fenter yn rhan o drefniadau 'Nadolig yn Ninbych' drwy drefnu ar y cyd â BBC Radio Cymru i gael Morgan Jones cyflwynydd Sgorio ar S4C ynghyd â Sali Mali a Sam Tân i droi ymlaen y goleuadau Nadolig.

Marchnata - Buom yn bresennol gyda stondin Partner Iaith yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, a hefyd gyda TWF yn Sioe Dinbych a Fflint. Buom yn marchnata'r Fenter ymhob cyfle bosibl drwy arddangos ein pop-ups ar bob cyfle.

Ymgyrch Marchnata Addysg Gymraeg - Cynhaliwyd yr ymgyrch arbennig hon gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg 'Cymraeg - Kids Soak it up' eto yn Sir Ddinbych. Eleni buom yn teithio o amgylch y sir yn hytrach na mewn lleoliadau penodol. Er yr holl deithio cafwyd ymgyrch llwyddiannus iawn yn ystod misoedd Chwefror a Mawrth. Buom yn cydweithio gyda nifer fawr o'n partneriaid yn ymweld â nifer o grwpiau megis Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi. Cynhaliwyd taith trênn gyda Sam Tân a Sali Mali drwy gydweithrediad Rheilffordd Llangollen a mentrau Fflint a Maelor a daeth 200 o blant a'u rhieni i fwynhau'r daith. Cawsom hefyd sesiwn ffotograffiaeth yn Boots y Rhyl a daeth 70 o rieni gyda'u plant bach i gael llun proffesiynol am ddim a gwybodaeth am addysg Gymraeg yn y sir. Ar y cyfan cafwyd ymgyrch llwyddiannus iawn a dosbarthwyd nifer fawr o nwyddau marchnata ynghyd a gwybodaeth ar Addysg Cyfrwng Cymraeg a sut i gael mwy o wybodaeth a chynngor.

**STAFF MENTER IAITH SIR DDINBYCH
MEHEFIN 2009**